PARC YR ESGOB
BISHOP'S PARK



Cadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolaeth Parc yr Esgob

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Helpwch lunio dyfodol un o barciau a gerddi mwyaf hanesyddol Cymru



Cynnwys

Croeso

Pwysigrwydd y lle arbennig hwn

Yr Ymddiriedolaeth

Ein Gweledigaeth

Pwysigrwydd y rôl

Yr Ymddiriedolaeth yn ystod cyfnod datblygiad cyffrous

Adeiladu dyfodol cynaliadwy

Rôl Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Manylion y penodiad

Sut i ymgeisio

Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth Parc yr Esgob. Mae ein Cadeirydd presennol yn sefyll lawr ar ôl arwain y sefydliad drwy gyfnodau cyffrous, ond heriol, ers 2017, pan gychwynnodd adferiad y parc.

Rydym yn falch o'r camau sylweddol sydd wedi'u cymryd hyd yma, gan sicrhau dros £4m o gyllid Treftadaeth y Loteri ynghyd â chyllid cyfatebol ychwanegol i adfer y parc a'r gerddi, creu canolfan ymwelwyr a dechrau adfer yr ardd furiog – ond credwn fod penodau cyffrous pellach yn wynebu'r Ymddiriedolaeth.

Rydym yn chwilio am gadeirydd profiadol i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer cyfnod nesaf yr elusen uchelgeisiol hon, sy'n gofalu am un o safleoedd hanesyddol mwyaf rhyfeddol a phwysig Cymru, gan sicrhau ei fod yn parhau i ysbrydoli ac addysgu cenedlaethau'r dyfodol.



Pam Mae'r Lle Hwn yn Bwysig



Fe greodd man cyfarfod yr afonydd Tywi a Gwili le sydd wedi denu pobl ers miloedd o flynyddoedd, gan roi ystyr i'r dirwedd.

Yn y drydedd ganrif ar ddeg, cydnabu'r Esgob Thomas Bek bwysigrwydd y lle hwn pan sefydlodd ei goleg yma, gan greu canolfan addoli, dysg a gweinyddiaeth a fyddai'n dylanwadu ar Gymru am ganrifoedd.

Yn ddiweddarach daeth palas esgobion Tyddewi, bellach Amgueddfa Sir Gâr, yn un o ganolfannau deallusol Cymru. Yma cyfieithodd Richard Davies, William Salesbury a Thomas Huet y Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r Gymraeg, gan osod seiliau a helpodd i sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg a chyfrannu at yr hyn y mae haneswyr wedi'i ddisgrifio fel y Dadeni Cymreig.

Heddiw, mae Parc yr Esgob a'r Amgueddfa yn creu cyrchfan dreftadaeth eithriadol lle gall ymwelwyr brofi canrifoedd o hanes Cymru mewn un safle.

Ymddiriedolaeth Parc yr Esgob

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Parc yr Esgob gan Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru yn 2016 i adfer, rheoli a diogelu'r parc a'i leoliad diwylliannol a naturiol unigryw er budd pawb. Gan weithio ochr yn ochr â Chyngor Sir Caerfyrddin, yr Eglwys yng Nghymru, gwirfoddolwyr a'n cymuned ehangach, rydym yn sicrhau ei fod yn parhau i ysbrydoli a chroesawu pobl o bob oed.

Mae Parc yr Esgob yn fwy na pharc cyhoeddus. Mae'n safle lle mae tirwedd, hanes, ffydd, iaith, dysg a chymuned wedi dod ynghyd dros ganrifoedd lawer. Nid oes angen i chi fod yn hanesydd, yn arddwr nac yn frwd dros dreftadaeth i werthfawrogi'r hyn sy'n gwneud ein parc yn arbennig. Daw rhai ymwelwyr i ddarganfod ei hanes cyfoethog, tra bod eraill yn mwynhau natur, yn mynd â'r ci am dro, yn beicio Llwybr Dyffryn Tywi, yn treulio amser gyda'r teulu neu'n ymlacio dros ginio yn y caffi. Gyda'i gilydd, mae'r profiadau hyn yn creu cyrchfan groesawgar a chynhwysol sy'n cyfrannu at les ein cymunedau, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y Parc.



Ein Gweledigaeth

Rydym am i Barc yr Esgob fod yn:

- Lle o harddwch a threftadaeth, wedi'i gadw'n ofalus a'i ddehongli'n ystyriol.
- Lle llesol, lle mae pobl a natur yn ffynnu gyda'i gilydd.
- Lle o gymuned, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys.
- Lle o ddysgu a darganfod, gan gysylltu pobl â hanes, diwylliant a'r amgylchedd.
- Atyniad ymwelwyr ffyniannus a sefydlog yn ariannol.

Ein Gwerthoedd a'n Diwylliant

Arweinir popeth a wnawn gan bum gwerth parhaol.

1. **Stiwardiaeth** - gofalu am y lle rhyfeddol hwn gydag uniondeb ac chyfrifoldeb er lles cenedlaethau'r dyfodol.

2. **Cymuned** - gweithredu bob amser i gynnwys ein cymuned yn ei ddyfodol.

3. **Parch** - trin pawb ag urddas, caredigrwydd a thegwch.

4. **Cydweithio** - sicrhau fod llwyddiant parhaol yn dibynnu ar bartneriaeth, bod yn agored a gwaith tîm.

5. **Rhagoriaeth** - ymdrechu i gyrraedd safonau uchel ym mhopeth a wnawn.

Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog ac rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ein gwaith a'n cyhoeddusrwydd.

Pam mae'r rôl Hon yn bwysig

Gan weithio ochr yn ochr â'r ymddiriedolwyr eraill a Chyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth, bydd y Cadeirydd yn helpu i lunio dyfodol Parc yr Esgob, gan sicrhau bod y sefydliad yn cael ei lywodraethu'n dda, yn ariannol gadarn ac yn ffyddlon i'w bwrpas elusennol.

Bydd y Cadeirydd hefyd yn llysgennad dros yr Ymddiriedolaeth, gan ysbrydoli diddordeb a hyder ymhlith gwirfoddolwyr, partneriaid, cyllidwyr a'r gymuned ehangach.







Ymddiriedolaeth yn ystod cyfnod datblygu cyffrous

Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi cyflawni llawer, ond mae mwy o gyfleoedd cyffrous o'n blaenau.

Mae datblygiad diweddar Llwybr Dyffryn Tywi yn gosod Abergwili wrth borth un o lwybrau teithio llesol mwyaf deniadol Cymru. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn cynnig cyfleoedd cyffrous i groesawu cynulleidfaoedd newydd, annog ymweliadau hirach a datblygu ffynonellau incwm cynaliadwy y gellir eu hailfuddsoddi i ofalu am y parc.

Yn ystod 2027, byddwn yn dathlu ailagor yr Ardd Furiog wedi'r gwaith adfer. Bydd hon yn dod yn atyniad newydd o bwys, gan greu cyfleoedd ar gyfer dehongli garddwriaethol, gwirfoddoli, addysg, ymgysylltu â'r gymuned a digwyddiadau.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Drwy weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, byddwn yn parhau i ddatblygu prosiectau newydd, sicrhau buddsoddiad a chryfhau cyfraniad y Parc at fywyd diwylliannol Cymru.

Adeiladu dyfodol cynaliadwy

Un o brif flaenoriaethau strategol y Bwrdd yw cryfhau cynaliadwyedd ariannol yr Ymddiriedolaeth.

Mae cyfuniad y parc a'i ardd furiog, Amgueddfa Sir Gaerfyrddin a Llwybr Dyffryn Tywi yn creu cyfleoedd eithriadol i ehangu'r hyn a ddarperir i ymwelwyr, i arallgyfeirio incwm a denu buddsoddiad newydd.

Bydd y Cadeirydd, gan weithio'n agos gyda thrysorydd yr Ymddiriedolaeth, yr ymddiriedolwyr eraill a'r staff, yn chwarae rhan ganolog wrth helpu ni i ddatblygu ffynonellau newydd o incwm, sicrhau grantiau a chymorth dyngarol, ac adeiladu sefydliad sy'n wydn yn ariannol er mwyn gallu cyflawni ei uchelgeisiau hirdymor.



Rôl Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Mae'r Cadeirydd yn darparu arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd ac yn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei dibenion elusennol yn effeithiol.

Mae'r prif gyfrifoldebau'n cynnwys:

- Arweinyddiaeth strategol
- Llywodraethiant
- Goruchwylio cyllid
- Gwydnwch sefydliadol
- Cynhyrchu incwm
- Datblygu partneriaethau
- Cefnogi a gwerthuso Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth
- Cynrychiolaeth gyhoeddus
- Datblygu'r Bwrdd a chynllunio olyniaeth

Sut y bydd llwyddiant yn edrych

Ar ddiwedd tymor 3 blynedd cyntaf y Cadeirydd, rydym yn gobeithio gweld:

- Ymddiriedolaeth gryfach yn ariannol;
- ailagor llwyddiannus yr Ardd Furiog;
- cynnydd mewn ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd newydd ac amrywiol;
- partneriaethau cryfach;
- gwell cydnabyddiaeth o arwyddocâd cenedlaethol y safle;
- cyfranogiad cymunedol mwy;
- Parc yr Esgob yn cael ei gydnabod fel un o barciau treftadaeth blaenllaw Cymru.

Manylion y Penodiad

Statws: Penodiad gwirfoddol.
Tymor: 3 blynedd (gellir ei adnewyddu unwaith).
Ymrwymiad: Gan mai elusen fach yw hon gyda adnoddau staff cyfyngedig, mae'r ymrwymiad amser yn hyblyg ac yn amrywio yn ôl rhaglen waith a blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth.
Lleoliad: Abergwili, gyda chyfarfodydd ar-lein achlysurol. Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd yn chwarterol gyda rhai is-grwpiau yn y cyfamser.
Cefnogaeth: Cyfnod sefydlu strwythuredig, ynghyd â chymorth gan yr Ymddiriedolwyr eraill a'r Cyfarwyddwr.
Treuliau: Gellir ad-dalu rhai treuliau wrth gyflawni busnes yr Ymddiriedolaeth, yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Ymddiriedolaeth a threuliadau eraill a gytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Sut i Ymgeisio

Gofynnir i chi gyflwyno eich cais drwy ebost at : rebekahsharpe@parcyresgob.org.uk

- Llythyr eglurhaol yn esbonio eich diddordeb yn y rôl a'ch addasrwydd ar ei chyfer.
- Eich CV.

Y dyddiad cau yw dydd Mercher, 2 Rhagfyr am 17:00. Cynhelir cyfweliadau yn yr wythnos yn cychwyn 7 Rhagfyr. Mae croeso i chi drefnu sgwrs anffurfiol gyda'r Cadeirydd presennol pe dymunir

Yn unol â'i bolisi Cyfle Cyfartal, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i hannog ym mhob un o'i darpariaethau gwasanaeth a'i harferion cyflogaeth. Felly, mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir.

